

CLWB MYNYDDA CYMRU

Polisi Asesu a Rheoli Risg

Cyflwyniad

Mae aelodaeth o Glwb Mynydda Cymru yn agored i oedolion dros ddeunaw mlwydd oed. Ni dderbynnir pobl ifainc a phlant dan ddeunaw oed yn aelodau. Gall rhywun dan ddeunaw oed gymryd rhan yng ngweithgareddau'r clwb os yw dan ofal rhiant neu oedolyn cyfrifol.

Mae croeso i rai nad ydynt yn aelodau i gymryd rhan fel gwesteion i flasu'r gweithgaredd ond disgwylir i unrhyw un sydd am gymryd rhan yn gyson i ymaelodi. (Ar sail profiad dros nifer fawr o flynyddoedd, gellir dweud fod pawb sydd yn ymuno â gweithgareddau'r clwb yn rheolaidd yn cofrestru fel aelod.)

Bydd y clwb yn achlysurol yn cynnal Dyddiau Blasu pryd yr estynnir gwahoddiad agored i rai nad ydynt yn aelodau i ymuno â gweithgaredd, gan roi pwyslais arbennig ar ddenu teuluoedd, pobl ifainc a phlant. Cymeradwy-ir y teithiau hyn gan y pwyllgor canolog a sicrhair bod aelodau profiadol o'r clwb yn cefnogi'r arweinydd.

Er bod arweinydd penodedig i bob gweithgaredd, disgwylir i bawb sy'n cymryd rhan fod wedi paratoi'n ddigonol o ran dillad ac offer, fod yn hyderus fod y gweithgaredd o fewn eu gallu a'u profiad a bod yn barod i gynorthwyo'r arweinydd yn ôl yr angen.

Mae tair elfen i'r modd y mae Clwb Mynydda Cymru'n asesu a rheoli risg:

1. Cynllunio a pharatoi ymlaen llaw.
2. Asesu deinamig parhaus yn ystod y gweithgaredd. **Ystyrir fod yr elfen hon yn hynod bwysig.**
3. Adrodd yn ôl ar unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad agos at ddamwain neu broblem sylweddol a gododd yn ystod y gweithgaredd.

Cynllunio a pharatoi ymlaen llaw

1. Mae gweithgareddau'r clwb yn cael eu trefnu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor. Rhoddir sylw arbennig i deithiau preswyl er mwyn sicrhau fod y trefniadau a'r arweinyddiaeth yn ddigonol a derbyniol.
2. Yn ymarferol, mae'r cyfrifoldeb o drefnu teithiau a gweithgareddau rheolaidd y clwb yn cael eu dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau a thrwyddo ef i is-drefnwyr teithiau De Cymru a theithiau dydd Mercher.
3. Bydd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau'n cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ar weithgareddau'r misoedd blaenorol a bydd cyfle i asesu llwyddiant y gweithgareddau hynny ac i ddysgu o unrhyw broblemau a gododd. Bydd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau hefyd yn cyflwyno adroddiad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

4. Mae'n agored i bob aelod i drefnu ac arwain gweithgaredd. Yr Ysgrifennydd Gweithgareddau sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gweithgareddau a chymeradwyo'r arweinydd fel person addas.

5. Mae'r clwb yn annog aelodau nad ydynt wedi arwain o'r blaen i gynnig eu hunain fel arweinwyr. Bydd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau'n trefnu bod aelod profiadol o'r clwb ar gael i gyd-arwain neu i gysgodi pan fydd rhywun di-brofiad yn arwain.

6. Bydd arweinydd pob gweithgaredd yn derbyn copi o'r ddogfen **Cyfrifoldebau Arweinwyr Teithiau**. Rhestrir yma'r hyn sy'n ofynnol gan arweinwyr cyn cychwyn y daith neu weithgaredd:

- Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r daith a'r amser a gymerir i gwblhau cymalau ohoni o dan yr amodau a ddisgwylir.
- Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y rhagolygon tywydd ar gyfer y diwrnod.
- Byddwch yn fodlon i aelodau gysylltu â chi o flaen llaw (ffôn/ebost) i roi gwybod eu bod am ymuno â'r daith neu os ydynt angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu.
- Ystyriwch benodi ail arweinydd os yw'r criw sy'n debyg o ymuno â'r daith yn fwy na 15 mewn nifer.
- Yn ystod y gaeaf, neu os oes tebygolrwydd o dywydd gwael, trefnwch bod cysgodfan grŵp ar gael a chariwch hi yn eich sach cefn. Darperir rhestr o aelodau fydd â chysgodfan yn eu meddiant.
- Dylech gario map a chwmpawd a bod yn gyfarwydd â'u defnyddio.
- Os oes gennych ffôn lôn clyfar, lawrlwythwch GPS a map OS/viewfinder o'r ardal dan sylw, a all eich helpu i fod yn sicr o leoliad a chyfeirnod grid pe bae angen.
- Cofrestrwch eich ffôn lôn efo'r gwasanaethau argyfwng, megis y Tîm Achub, er mwyn gallu anfon neges destun atynt pe bae angen drwy anfon y neges 'Register' at 999
- Rhowch groeso i'r cerddwyr ar y diwrnod, yn arbennig unrhyw aelod newydd, a chyflwynwch fraslun o'r daith dan sylw.
- Sicrhewch fod gennych restr o enwau pawb, gyda rhif ffôn cyswllt argyfwng ar gyfer pob un. Gallwch gofnodi'r rhifau hyn pan fydd aelodau'n cysylltu â chi ymlaen llaw, fel nad oes gormod i'w cofnodi ar fore'r daith.

Asesu deinamig parhaus yn ystod y gweithgaredd

Pwysleisir nad ymarferiad ymlaen llaw ar bapur yn unig yw asesu risg. **Dylai bod yn ymwybodol yn barhaus o unrhyw risgiau posib a all ddatblygu fod yn rhan o feddylfryd pob cerddwr a mynyddwr.** Ar sail canfyddiad o risg, gellir gwneud penderfyniadau ystyriol ar sut y gellir dileu neu reoli'r risg.

Pwysleisir mai un o gyfrifoldebau pwysicaf arweinydd yw bod yn barod i gwtogi, addasu neu derfynu gweithgaredd yn ôl yr amgylchiadau.

Mae'r ddogfen **Cyfrifoldebau Arweinwyr Teithiau** yn cynnwys y cyfarwyddiadau canlynol:

- Rhowch groeso i'r cerddwyr ar y diwrnod, yn arbennig unrhyw aelod newydd, a chyflwynwch fraslun o'r daith dan sylw.

- Eglurwch wrth y criw ei bod yn bwysig cadw'n eitha' agos /o fewn golwg i'w gilydd, yn arbennig mewn tywydd garw a phan fo niwl. Ni ddylai neb fynd ar y blaen o'r arweinydd.
- Gofynwch i gerddwr profiadol fod wrth ben cynffon y criw i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl neu'n mynd ar goll.
- Gwnewch yn siŵr fod eich rhif ffôn symudol chi a'r un sy'n cadw llygaid ar y cefn gan y naill a'r llall. Er hynny, ni ddylid caniatáu i fwllch sylweddol ddatblygu rhwng y blaen a'r cefn ar unrhyw adeg o'r daith.
- Gosodwch arweiniad o ran cyflymdra gan geisio sicrhau bod pawb yn gyfforddus a nad oes rhai'n rhy bell yn y blaen nac yn y cefn.
- Cadwch lygaid ar gyd-gerddwyr yn ystod y daith a holwch neu cynigiwch gymorth yn ôl yr angen.
- Penderfynwch pryd i oedi am baned/cinio/gorffwys gan gadw llygad ar y criw a'r hyn fyddai o fudd iddynt.
- Byddwch yn barod i addasu'r daith yn ôl yr amgylchiadau ar y diwrnod, megis tywydd gwael neu unrhyw ffactorau eraill megis cyflwr llwybr, afonydd neu nentydd mewn lli neu diffyg amser i gwblhau'r daith yn ddiogel.

Adrodd yn ôl ar unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad agos at ddamwain neu broblem sylweddol

Gofynnir i bob un sy'n arwain gweithgaredd i gyflwyno adroddiad ar gyfer gwefan y clwb. Os digwydd unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad agos at ddamwain neu os cyfyd unrhyw broblem sylweddol yn ystod y gweithgaredd yna dylai'r arweinydd hysbysu'r Ysgrifennydd Gweithgareddau a'r Cadeirydd o hynny.

Gall y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gweithgareddau (a/neu swyddogion eraill yn ôl dewis y Cadeirydd) ofyn am adroddiad llawn neu gynnal ymchwiliad pellach.

Pwrpas y broses hon yw ceisio deall beth achosodd y ddamwain neu ddigwyddiad a phenderfynu beth gellid ei wneud i geisio osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn darparu cyfleustra ar eu gwefan i gyflwyno adroddiad ar ddamweiniau fel bod y profiad a'r gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu gydag eraill. Os ystyrir hynny'n briodol, gellid gwneud defnydd o hyn.